



# **Y Gwnstabliaeth Sifil Niwclear**

**Adroddiad Monitro  
Cynllun yr Iaith Gymraeg**

Medi 2014

# Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Llwyddiannau yn 2013-14.....	4
Sialensau ar gyfer 2014-15.....	4
Gohebiaeth Gymraeg .....	4
Deunyddiau a Gyhoeddwyd yn y Gymraeg .....	4
Polisiâu a Mentrau Cymraeg .....	5
Hyfforddiant yn y Gymraeg yn Uned Wylfa .....	6
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg` .....	6
Recriwtio i'r Gwnstabiliaeth.....	6
Rhyngweithredu gyda Heddluoedd Cymru.....	6
Ymwneud Cyfranddeiliaid .....	7
Penodi Asiantaeth Gyfieithu Gymraeg Gydnyddedig .....	7

# Cyflwyniad

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear (AHSN) ei baratoi yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Dyma oedd cynllun cyntaf yr AHSN a chafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (sef Comisiynydd y Gymraeg bellach) ar 31ain Mawrth 2008.

Ers hynny, mae'r Gwnstabiliaeth Sifil Niwclear (y Gwnstabiliaeth) wedi bod yn rhoi'r Cynllun Gweithredu mewn grym yn llwyddiannus ar ran yr AHSN, yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

Sefydlwyd yr AHSN a'r Gwnstabiliaeth ar 1 Ebrill 2005, yn unol â chyfarwyddyd Deddf Ynni 2004. Mae'r sefydliad yn gweithredu o dan gyfarwyddyd strategol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (byrfodd DECC yn y Saesneg).

Swyddogaeth yr AHSN, yn unol â Deddf 2004, yw sicrhau bod Cwnstabiliaeth effeithlon ac effeithiol yn cael ei chynnal. Ei phrif swyddogaeth yw amddiffyn safleoedd niwclear trwyddedig nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llwyr nac yn bennaf i ddibenion amddiffyn, a diogelu deunydd niwclear yn y DU a manau eraill.

Felly mae gan yr AHSN drosolwg o'r Gwnstabiliaeth ac mae'n ei chyflogi. Yn ei thro, mae'r Gwnstabiliaeth yn darparu gallu i ymateb gydag arfau ar safleoedd ar gyfer y diwydiant niwclear, gydag Unedau gweithredol a chefnogi a leolwyd mewn 11 safle niwclear trwyddedig. Ynghyd â gweithredwyr safle a chlodwyr, mae'r Gwnstabiliaeth yn rhannu cyfrifoldeb am amddiffyn deunydd a chyfleusterau niwclear, ac am symud deunydd niwclear yn ddiogel a sicr yn y DU ac yn rhyngwladol.

Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, mae'r Gwnstabiliaeth yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa ar gyfer Rheoleiddio Niwclear (ONR yn Saesneg) sydd, yn ei swyddogaeth reoleiddiol, wedi derbyn awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo rhai gweithgareddau cysylltiedig â diogelwch yr AHSN, ac felly o'r Gwnstabiliaeth. Caiff gwasanaethau plismona y mae eu hangen ym mhob safle niwclear trwyddedig eu cytuno gyda'r gweithredwyr safle yn unol â Rheoliadau Diogelwch Diwydiannau Niwclear 2003 (Byrfodd NISR yn Saesneg) ac maent yn cael eu dilysu gan 'ONR'. Er mwyn cydymffurfio â'r 'NISR', mae angen gwasanaethau heddlu arfog yn y rhan fwyaf o safleoedd niwclear trwyddedig yn y DU. Mae mwyafrif swyddogion y Gwnstabiliaeth yn Swyddogion Arfog Awdurdodedig.

Caiff y Gwnstabiliaeth ei chydabod gan Gymdeithas Prif Swyddogion Heddluoedd Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon a gan Gymdeithas Prif Swyddogion Heddlu yr Alban. Trwy'r Protocol Plismona Cenedlaethol Cyd-drefnedig, mae'r Gwnstabiliaeth wedi sefydlu memoranda o ddealltwriaeth gyfa'r heddluoedd lleol perthnasol ym mhob un o'r 11 Uned Plismona Gweithredol. Mae'r gefnogaeth a'r cymorth y mae'r naill yn roi i'r llall trwy'r trefniadau hyn yn galluogi'r Gwnstabiliaeth i ganolbwyntio ar ei swyddogaeth greiddiol.

Mae'r strategaeth patrôl a ddefnyddir gan y Gwnstabiliaeth wedi ei bwriadu i gyfyngu a tharfu ar amgylchedd weithredu personau â bwriadau terfysgol; hefyd rhydd sicrwydd i'r cyhoedd yng nghyffiniau safleoedd niwclear trwyddedig. Wrth batrolio, yn aml daw swyddogion ar draws digwyddiadau o fewn eu cymdogaeth leol; mae digwyddiadau o'r fath wedi cynnwys swyddogion yn darparu cymorth cyntaf mewn damweiniau ffordd, delio â throseddau lle mae amheuaeth o yfed a gyrru, yn ogystal â chynorthwyo lluoedd Swyddfa Gartref lleol/ Heddlu yr Alban gydag achosion o darfu ar yr heddwch a cheisio cyflawni hunan-laddiad.

Tra'i bod yn nod gan y Gwnstabiliaeth i ennill cydnabyddiaeth fwy eang o'i swyddogaeth ac i ddarparu sicrwydd i'r cyhoedd am ddiogelwch niwclear sifil, mae'r wybodaeth yn yr adroddiad

hwn, o anghenrhaidd, yn hepgor manylion gweithredol a allai ddarparu cyfleoedd i unrhyw berson neu grŵp sy'n cynllunio ymosodiad ar gyfleusterau neu ddeunyddiau sifil niwclear,

## Llwyddiannau yn 2013-14

- Cyhoeddi crynodeb Cymraeg o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr AHSN 2012/13
- Cyhoeddi fersiwn Gymraeg o Gynllun Strategol yr AHSN 2013-16
- Sefydlu tîm ffurfiol i reoli Cynllun y Gymraeg.

## Sialensau ar gyfer 2014-15

- Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i safonau ac adrodd ar Uned Plismona Weithredol(OPU yn Saesneg) y Gwnstabiliaeth yn Wylfa
- Datblygu strategaeth er mwyn cynnal mentrau iaith Gymraeg Uned Plismona Weithredol y Gwnstabiliaeth yn Wylfa dros y cyfnod y bydd y Gwnstabiliaeth yn rhoi'r gorau dros dro i weithredu'n lleol.

## Gohebiaeth Gymraeg

Mae Uned Wylfa yn derbyn ar draws ugain o eitemau gohebiaeth bob chwarter. Daw'r rhan fwyaf o'r ohebiaeth Gymraeg i law gan Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg a chaiff ei anfon yn ddwyieithog trwy e-bost i Uned Wylfa.

Mae Uned Wylfa yn parhau i ohebu'n fewnol ac allanol yn Saesneg. Am resymau diogelwch ar y safle, Saesneg yw'r brif iaith sy'n cael ei defnyddio. Fodd bynnag, mae pob e-bost gan swyddogion Wylfa yn cau gyda chyfarchiad dwyieithog.

## Deunyddiau a Gyhoeddwyd yn Gymraeg

### ***Adroddiad Blynyddol***

Cyhoeddwyd crynodeb o Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr AHSN 2012/13 yn y Gymraeg. Mae'r ddogfen yn cynnwys Datganiadau'r Cadeirydd a'r Prif Gwnstabl, Amdanom Ni (cyflwyniad i'r AHSN), Uchelgais, Cenhadaeth a Gwerthoedd Creiddiol, Amcanion Strategol, Uchafbwyntiau Perfformiad a Chrynodeb o Berfformiad.

Mae Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr AHSN am 2013/14 yn cael eu paratoi i'w cyfieithu ar hyn o bryd.

### ***Cynllun Plismona Strategol***

Cyhoeddwyd Cynllun Strategol yr AHSN am 2013–16 yn y Gymraeg hefyd y llynedd. Mae'r ddogfen yn gyfieithiad uniongyrchol o'r fersiwn Saesneg.

Mae Cynllun Strategol yr AHSN ar gyfer 2014-17 wrthi'n cael ei baratoi i'w gyfieithu.

### ***Deunyddiau Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu***

Mae taflenni Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu (byrfodd Saesneg IPCC) ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gwybodaeth ddwyieithog ar gael hefyd ar wefan yr IPCC. Pe bai aelod o'r cyhoedd eisiau gwneud cwyn yn erbyn swyddog, dylai gyfeirio at y taflenni hyn ac mae modd dewis ffurflenni Cymraeg neu Saesneg wrth wneud cwyn. Hyd yma, ni chafodd unrhyw gwyn ei wneud yn erbyn Uned Wylfa.

## **Llyfrau Datganiad Aros ac Adrodd**

Mae pob swyddog yn Wylfa wedi cael ffurflenni unigol aros ac adrodd a ffurflenni (Datganiad) MG11 yn y Gymraeg a'r Saesneg yn effeithiol o Awst 2008. Pe bai aelod o'r cyhoedd yn cael ei stopio a swyddog yn cymryd datganiad, mae gan yr unigolyn y cyfle i ddewis iaith ei ffurflen a'i chwblhau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

## **Gwefan y Gwnstabiliaeth**

Yn ystod haf 2014, symudodd gwefan y Gwnstabiliaeth i barth GOV.UK(<https://www.gov.uk/government/organisations/civil-nuclear-constabulary>). Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg yn parhau yn amlwg oddi mewn i strwythur y safle newydd. Mae modd cael gwybodaeth am y Cynllun yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ogystal â'r wefan, mae deunyddiau ar gael yn uniongyrchol gan y Gwnstabiliaeth, gan gynnwys crynodebau o Adroddiadau Blynyddol blaenorol yr AHSN, Cynlluniau Strategol yr AHSN a thafenni gwybodaeth gyffredinol. Mae'r wefan yn cynnig manylion cysylltu ar gyfer pobl sy'n dymuno cael copïau electronig o'r deunyddiau hyn yn ogystal â gwneud ymholiadau pellach mewn perthynas â'n hymwneud â materion perthnasol i Gynllun y Gymraeg.

## **Mewnrwyd y Gwnstabiliaeth**

Mae gan staff a swyddogion yr heddlu fynediad at ymateb parhaus y Gwnstabiliaeth i Gynllun yr Iaith Gymraeg. Diweddarwyd y tudalen yr Iaith Gymraeg y llynedd gyda darnau Cymraeg wedi eu postio ar y dudalen sy'n cyflwyno safle Wylfa ac yn egluro sefyllfa'r Gwnstabiliaeth mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg. Mae yna fersiynau Saesneg yn dilyn pob darn fel bod gan ein swyddogion a'n staff gyfle i gymharu Cymraeg a Saesneg yn eu ffurf ysgrifenedig.

Cafodd y prosiect hwn ei ymestyn yn ystod 2013/14 a'i gwblhau'n llwyddiannus gan gymhorthydd gweinyddol safle Wylfa. Yn awr, mae yna dudalennau mewnrwyd cynhwysfawr ar gyfer uned Wylfa yn egluro manylion penodol am y safle ac yn cynnig cyngor ar sut i weithio gyda threfniadau'r safle - y cyfan ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## **Polisiâu a Mentrau Cymraeg**

### **Gwisgoedd Swyddogol Dwyieithog**

Mae pob swyddog yn Uned Wylfa yn derbyn gwisg swyddogol ddwyieithog yn cynnwys capiau, siacedi llachar a siwperi fflis a chânt ddau bats Velcro gyda 'Heddlu' arnynt y gallant eu defnyddio ar eitemau eraill o wisg swyddogol y Gwnstabiliaeth. Yn ystod 2014, alldarparwyd rheolaeth storfa ddillad y Gwnstabiliaeth i gyflenwr allanol a bu newid sylweddol yn y broses cyflenwi dillad. Sicrhodd y Gwnstabiliaeth bod gwisg swyddogol ddwyieithog yn parhau ar gael i swyddogion newydd eu recriwtio a swyddogion sefydlog yn Wylfa gydol y cyfnod hwn o newid.

### **Cardiau Gwarant Dwyieithog**

Mae pob swyddog yn Uned Wylfa bellach wedi derbyn cardiau gwarant dwyieithog gan eu bod wedi cael eu hailgynhyrchu i gynnwys y ddwy iaith, fel pe bai aelod o'r cyhoedd yn cael ei stopio gallai weld cerdyn gwarant fel prawf adnabyddiaeth a chael cyfle i fynegi ei ddewis iaith wrth adolygu manylion.

### **Arwyddion Heddlu Cymraeg/Saesneg**

Mae gan holl gerbydau Uned Wylfa arwyddion dwyieithog. Mae gan Swyddfa Uned Wylfa, o fewn yr Uned, arwyddion dwyieithog. Arddangosir arwyddion dwyieithog ar y safle.

# Hyfforddiant yn y Gymraeg yn Uned Wylfa

## **Cwrs Cymraeg**

Mae ymrwymiad gan y Gwnstabiliaeth i ddarparu Hyfforddiant yn yr Iaith Gymraeg i Swyddogion Wylfa. Mae'r Gwnstabiliaeth yn cydnabod mai Cymraeg yw'r iaith gyntaf mewn rhannau o Fôn, a bod y cyhoedd yn ymateb yn dda iawn i ymdrechion gan y swyddogion yn Uned Wylfa i ddangos cwртеisi ieithyddol.

Mae pob swyddog a ymunodd ag Uned Wylfa cyn gwanwyn 2012 wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn cyrsiau dysgu Cymraeg, naill ai trwy fynychu Cwrs Iaith C1 neu trwy gwrs Hunan Asesu yn y Gymraeg.

Mae'r Gwnstabiliaeth eto wedi sicrhau cyllid ac mae'n defnyddio hyfforddwr sy'n byw'n lleol i roi hyfforddiant lefel 1 a lefel 2. Ar hyn o bryd, mae Uned Wylfa yn gweld cynnydd arwyddocaol yn nifer y staff. Dylai hyn fod wedi ei gwblhau erbyn Ebrill 2015 ac mae Hyfforddiant yn y Gymraeg wedi ei raglennu i ddechrau unwaith y bydd pawb a recriwtiwyd wrth eu gwaith.

## **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg**

Mae ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi cael ei integreiddio yn rhaglen anwytho'r safle fel bod pob person a benodir o'r newydd yn derbyn cyflwyniad i'r Gymraeg. Mae'r swyddog gweinyddol yn gweithio gyda swyddogion Wylfa er mwyn datblygu eu sgiliau sgwrsio Cymraeg ble bynnag y bo modd.

## **Recriwtio i'r Gwnstabiliaeth**

### **Recriwtio**

Mae'r Gwnstabiliaeth wedi datblygu strategaeth recriwtio ddwy flynedd sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer recriwtio i Uned Wylfa. Ar hyn o bryd, mae Uned Wylfa'n parhau gyda'r uwchraddio.

Mae recriwtio ar lefel Swyddog yn cael ei reoli'n genedlaethol; mae Uned Wylfa yn dewis o gronfa o ymgeiswyr cenedlaethol. Caiff ceisiadau eu gwneud trwy ein gwefan yrfaoedd.

Caiff staff cefnogi eu recriwtio'n lleol gyda hysbysebion dwyieithog mewn papurau lleol. Nodwedd ddymunol ar gyfer y swyddi hyn yw gallu cyflawni agweddau o'r swydd yn hyderus ar lafar trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

### **Gwefan Yrfaoedd y Gwnstabiliaeth**

Lansiodd y Gwnstabiliaeth wefan yrfaoedd yn Rhagfyr 2009 sy'n ymgorffori Cynllun yr Iaith Gymraeg trwy:

- Broffilio swyddog sy'n gweithio yn Wylfa a gafodd ei gefnogi gan y Gwnstabiliaeth i astudio'r Gymraeg, gyda fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r proffil.
- Proffilio Uned Wylfa a hybu lleoliad Wylfa yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## **Rhyngweithrediad gyda Heddluoedd Cymru**

Mae Uned Wylfa wedi datblygu cysylltiadau agos gyda Adran Gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru. Cynhwysodd yr adran y Gwnstabiliaeth mewn cyd-ymateb sy'n

cael ei baratoi ganddynt hwy dros holl heddluoedd Cymru mewn ymateb i gyflwyno Mesur yr Iaith Gymraeg(Cymru) 2011.

Mae Cadlywydd yr Uned yn Wylfa hefyd yn mynychu'r Grŵp Adolygu Strategol a chyfarfodydd y Fforwm Gwytnwch Lleol a gynhelir ym Mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru.

Mewn ymgais i gydweithredu ar draws heddluoedd Cymru mae Swyddogion o Uned Wylfa a staff o'r Pencadlys yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion yr iaith Gymraeg o Ogledd Cymru, Gwent, Dyfed Powys, De Cymru a Heddlu Cludiant Prydeinig fel rhan o Weithgor y Gymraeg Heddluoedd Cymru sy'n bwriadu datblygu ymagweddiad a gyd-drefnywyd tuag at Blismona yn y Gymraeg.

Nid yw Uned Wylfa'n gohebu'n rheolaidd â heddluoedd Dyfed-Powys, De Cymru na Gwent gan nad oes ganddi unrhyw fusnes yn yr ardaloedd daearyddol hynny.

## **Ymrwymiad Cyfranddeiliaid**

Bu swyddogaeth y Gwnstabiliaeth yn newid dros y blynyddoedd diweddar, gan ddod yn gynyddol fwy arbenigol gan ganolbwyntio ar blismona arfog. Cyfarwyddodd yr AHSN gyfres o adolygiadau o drefniadau diogelwch sy'n bodoli ym mhob un o'i safleoedd fel rhan o raglen gwella'n barhaus. Canlyniad yr adolygiadau hyn oedd bod y Gwnstabiliaeth wedi datblygu model gweithredol sy'n gwneud y defnydd mwyaf posibl o'i allu ac sy'n alinio â gwelliannau diogelwch ffisegol yr ymgymerodd Cwmnïau Trwydded Safle â hwy.

Canlyniad hyn yn Uned Plismona Gweithredol Wylfa yw bod swyddogion yn canolbwyntio ar weithredu'r newidiadau hyn a gweithredu safiad diogelwch sy'n canolbwyntio ar gyfleusterau safle yn hytrach na gwaith o fewn y gymuned leol. O ganlyniad, bu llai o gyfleoedd ar gyfer ymrwymiad cyfranddeiliaid er bod yr Uned yn ceisio manteisio ar unrhyw gyfleoedd i siarad Cymraeg gyda gweithredwyr safle, cytundebwyr a staff yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd.

## **Penodi Asiantaeth Gyfieithu Gymraeg Gydnyddedig**

Sicrhodd yr Asiantaeth gyfieithydd o Fôn oedd yn gydnabyddedig gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (fel yr oedd gynt) i gynorthwyo gyda chyfieithu amryw o ddeunyddiau sydd i'w canfod ar wefan y Gwnstabiliaeth. Bwriad y Gwnstabiliaeth ydy parhau â'r berthynas hon i gynorthwyo gyda chynlluniau diweddar deunyddiau cyhoeddus yn y dyfodol.

Ar gyfer prosiectau mwy, fel cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr AHSN, cafodd gwasanaethau cyfieithu eraill eu defnyddio mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth dylunio ac argraffu a ddewiswyd gan y Gwnstabiliaeth. Cyflogwyd cyfieithydd y Gwnstabiliaeth o Fôn i sicrhau ansawdd eu gwaith er mwyn cysondeb.